# Templed Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – Rhan 1

| | |
|---|---|
| **Teitl y polisi a'i ddiben (amlinelliad cryno):** | **Cefnogi Dysgwyr sydd ag Anghenion Gofal Iechyd**<br><br>**Adolygu dogfen ganllaw 2010 'Mynediad i Addysg a Chymorth i Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Meddygol'** |
| **Enw'r swyddog:** | **Dan Martin** |
| **Adran:** | **Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus** |
| **Dyddiad:** | **24/02/2016** |
| **Llofnod:** | **Dan Martin** |

**1. Rhowch ddisgrifiad cryno o'r polisi/penderfyniad.**

**Er enghraifft, beth yw amcan cyffredinol y polisi/penderfyniad, beth yw'r nodau a bennwyd (yn cynnwys pwy yw'r buddiolwyr arfaethedig), disgrifiad bras o sut y cyflawnir hyn, beth fydd yn mesur llwyddiant, a'r amserlen ar gyfer cyflawni hyn?**

Gall cyflyrau meddygol gael effaith hirbarhaol ar ddatblygiad cymdeithasol, hyder a gallu plant a phobl ifanc, a gall hynny yn ei dro effeithio ar eu cyrhaeddiad addysgol. Mae'n bwysig felly darparu gwasanaethau cymorth di-dor er mwyn bodloni eu hanghenion, a sicrhau dilyniant o ran y cyfleoedd addysgol sydd ar gael iddynt gartref, yn yr ysbyty, neu mewn unrhyw leoliad arall. Gellir cyflawni hyn drwy fod cydweithio rhwng y rhieni/gofalwyr a'r ysgol y bydd y dysgwr yn ei mynychu fel arfer.

Mae'r ddogfen ganllaw bresennol *Mynediad i Addysg a Chymorth i Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Meddygol* (y canllaw *Anghenion Meddygol*) yn rhoi cyngor i ysgolion ac awdurdodau lleol ynghylch bodloni anghenion addysgol plant a phobl ifanc sydd ag anghenion meddygol.  Er nad yw'n ofyniad statudol, disgwylir i'r holl awdurdodau lleol, ysgolion a chyrff llywodraethu lunio polisïau ar gyfer rhoi addysg i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion meddygol, a hynny yng ngoleuni unrhyw gyfrifoldebau statudol ehangach, a'u hasesiad eu hunain o adnoddau ac anghenion lleol.

Gwnaed penderfyniad i adolygu'r defnydd a wneir o'r ddogfen ganllaw gan ysgolion ac awdurdodau lleol, er mwyn gweld a yw'r cymorth a roddir i ddysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd yn gyson ledled Cymru. Dangosodd yr adroddiad y gellid gwella'r canllawiau presennol, o ran eu cynnwys a'u strwythur. O'r lleoliadau addysg a gafodd eu holi ar gyfer yr adolygiad, dim ond 40% sydd wedi defnyddio'r ddogfen *Anghenion Meddygol* bresennol i'w helpu i greu eu polisi/polisïau anghenion meddygol. Dywedodd yr ysgolion a'r sefydliadau iechyd:

- y dylai'r canllawiau fod yn llawer byrrach;
- y dylent nodi'n glir yr hyn y ceir ei wneud a'r hyn na cheir ei wneud;
- y dylent fod yn symlach, yn gliriach ac yn fwy uniongyrchol.

Bydd y ddogfen ganllaw ddiwygiedig yn rhoi cyfarwyddiadau cliriach i gyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol, ynghyd â  darparu canllaw ar yr arferion gorau ar eu cyfer, er mwyn iddynt allu cyflawni eu dyletswyddau deddfwriaethol. Bydd hynny'n helpu i wella ansawdd a chysondeb y cymorth a roddir i ddysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd tra byddant mewn lleoliad addysgol.

Yn sgil cynnal ymgynghoriad, bwriedir cyhoeddi'r ddogfen derfynol ym mis Mehefin 2016. Byddwn yn cydweithio'n agos gydag awdurdodau lleol i fonitro sut y bydd y canllawiau'n cael eu gweithredu.

**2. Mae dyletswydd gyfreithiol arnom i ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gweler Atodiad A o'r canllawiau ar yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb) y nodir eu bod yn berthnasol i'r polisi. Pa gamau a roddwyd ar waith gennych i ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn fewnol ac yn allanol?**

Ymgysylltwyd â'r rhanddeiliaid canlynol yn ystod yr adolygiad, a defnyddiwyd eu sylwadau wrth baratoi'r ddogfen ganllaw ddrafft dan sylw:

4 awdurdod lleol, 4 bwrdd iechyd lleol, 4 meithrinfa a gynhelir, 20 ysgol gynradd (gan gynnwys rhai cyfrwng Cymraeg), 20 ysgol uwchradd (gan gynnwys rhai cyfrwng Cymraeg), 4 ysgol arbennig, 4 uned cyfeirio disgyblion, a 4 coleg addysg bellach. Ymgysylltwyd â staff penodol yn y lleoliadau hyn, gan gynnwys penaethiaid, staff sy'n gyfrifol am gymorth cyntaf, cydgysylltwyr anghenion meddygol, staff gweinyddu, a swyddogion lles disgyblion. Cafodd barn undebau addysg hefyd ei hystyried yn ystod yr adolygiad, ac fe'i defnyddiwyd i helpu i lunio'r ddogfen ganllaw ddrafft ddiwygiedig.

Y tu allan i'r adolygiad, cyfarfu swyddogion polisi â nifer o grwpiau sy'n cynrychioli anghenion gofal iechyd fel rhan o'r gwaith ehangach o roi cymorth i ddysgwyr mewn ysgolion; er enghraifft ymgysylltwyd â *Diabetes UK* a Chymdeithas Brydeinig Athrawon Pobl Fyddar. Hefyd ymgysylltwyd â'r holl brif undebau athrawon drwy Grŵp Partneriaeth Undebau Llywodraeth Cymru.

Cafodd grŵp mewnol ei sefydlu o fewn Llywodraeth Cymru, ac roedd y grŵp hwn yn cynnwys swyddogion o Bolisi Gofal Iechyd, Atal Gordewdra ac Iechyd Plant, ac Iechyd Cyhoeddus, yn ogystal â swyddogion Polisi Addysg Bellach. Mae'r grŵp wedi rhoi adborth ar fersiynau ailadroddol o'r ddogfen ganllaw ddrafft.

Caiff yr ymgynghoriad deg wythnos ei hyrwyddo drwy Twitter, ac yn Dysg. Ymgysylltir â'r rhanddeiliaid allweddol canlynol yn uniongyrchol i geisio eu hymateb i'r ymgynghoriad:

- Elusennau *Diabetes UK , Asthma UK, Anaphylaxis Campaign, Allergy UK,* Epilepsi Cymru; ac elusennau iechyd eraill.
- Gweithredu dros Blant
- Barnardo's Cymru
- Plant yng Nghymru
- Elusen *Action for Sick Children*
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Comisiynydd Plant Cymru
- Estyn
- Undebau Addysg (yr NASUWT, yr NAHT)

Caiff yr asesiad o effaith ei gyhoeddi ochr yn ochr â fersiwn ddrafft o'r ddogfen ganllaw *Anghenion Gofal Iechyd*. Bydd cyhoeddi'r ddogfen hon yn gyfle i randdeiliaid roi adborth a sylwadau. Caiff unrhyw adborth ynghylch y canllawiau drafft ei ystyried a'i ddefnyddio wrth ddatblygu polisi.

**3. Rhaid i chi seilio eich penderfyniadau ar dystiolaeth gadarn. Pa sail dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennych? Rhestrwch ffynhonnell y dystiolaeth e.e. Arolwg Cenedlaethol Cymru. A ystyriwch chi fod y dystiolaeth yn gryf, yn foddhaol neu'n wan ac a oes yna fylchau yn y dystiolaeth?**

Dylanwadwyd ar y penderfyniad i adolygu'r polisi anghenion meddygol gan yr hyn yr oedd gan rieni a grwpiau undebau i'w ddweud am eu profiadau, gan gynnwys achosion lle bu'n rhaid i rieni fynd i'r lleoliad addysgol eu hunain i roi meddyginiaeth neu gymorth arall i'w plant er mwyn rheoli eu hanghenion gofal iechyd. Mae staff ysgolion hefyd wedi dweud nad yw'n glir beth yw eu cyfrifoldebau o ran rhoi cymorth i ddysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd, a chanlyniad hynny yw bod anghysondebau yn y cymorth a ddarperir ar draws lleoliadau.

Cafodd cwmni *Cognition Associates* ei benodi i adolygu'r ddarpariaeth bresennol o gymorth ar gyfer anghenion gofal iechyd. Nod yr adolygiad oedd:

- gweld a yw lleoliadau addysg, sydd â darpariaeth ar gyfer dysgwyr 3-19 oed, yn defnyddio'r ddogfen ganllaw *Mynediad i Addysg a Chymorth i Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Meddygol*;
- nodi a yw'r ddogfen yn darparu'r math o ganllawiau/cymorth y mae ei angen;
- asesu'r potensial ar gyfer ehangu'r canllawiau i gynnwys lleoliadau addysg bellach;
- adolygu dogfen ganllaw 2010 *Mynediad i Addysg a Chymorth i Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Meddygol* – y fersiynau Cymraeg a Saesneg.

Daeth yr adroddiad cryno i'r casgliad bod y ddogfen ganllaw bresennol yn annigonol o ran ei chynnwys a'i strwythur. O'r lleoliadau addysg a gafodd eu holi ar gyfer yr adolygiad, dim ond 40% sydd wedi defnyddio'r ddogfen bresennol i'w helpu i greu eu polisi/polisïau anghenion meddygol. Dywedodd yr ysgolion a'r sefydliadau iechyd:

- y dylai'r canllawiau fod yn llawer byrrach;
- y dylent nodi'n glir yr hyn y ceir ei wneud a'r hyn na cheir ei wneud;
- y dylent fod yn symlach, yn gliriach ac yn fwy uniongyrchol.

Mae’r adolygiad o’r ddarpariaeth bresennol ar gyfer anghenion meddygol wedi dangos bod cryn amrywiaeth yn nulliau ysgolion o roi cymorth i ddysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd. Bydd y canllawiau newydd, sy’n nodi’n glir yr hyn y mae’n rhaid i ysgolion ei wneud, a’r hyn y dylent ei wneud, yn sicrhau mwy o gysondeb yn y cymorth a roddir i ddysgwyr oedran ysgol orfodol ledled Cymru.

**<u>Effaith</u>**

**Cwblhewch yr adran nesaf i ddangos sut y gallai’r polisi / penderfyniad / arfer hwn effeithio (yn gadarnhaol neu’n negyddol) ar y grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gweler y canllawiau ar yr Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb am ragor o wybodaeth).**

**Nid yw diffyg tystiolaeth yn rheswm dros *beidio* â symud ymlaen i gynnal Asesiad. Tynnwch sylw at unrhyw fylchau a welsoch yn y dystiolaeth. Dywedwch a yw’n fwriad gennych i lenwi’r bylchau hyn, ac os felly, sut?**

**4.1 A ydych chi’n credu y bydd y polisi / penderfyniad / arfer hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hoed?**

| Oed | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Pobl iau<br><br>(*Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed*) | **X** | | | Bydd y ddogfen ganllaw ddiwygiedig yn helpu i sicrhau bod cymorth ar gael i ddysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd ym mhob lleoliad addysg a gynhelir. Nod y canllawiau fydd sicrhau eglurder ynghylch rolau, cyfrifoldebau a dyletswyddau cyrff |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | llywodraeth ac ysgolion.<br><br>Gallai dysgwyr 16-18 oed hefyd elwa, gan y gallai sefydliadau addysg bellach ddefnyddio'r ddogfen hon fel dogfen arferion gorau. |
| Pobl 18-50 oed | | | **X** | Nid yw'r ddogfen ddiwygiedig yn ymdrin â'r ddarpariaeth addysg uwch. |
| Pobl hŷn (50+) | | | **X** | Nid yw'n berthnasol i'r cohort hwn. |

**4.2 Oherwydd eu bod yn anabl?**

| Nam | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Nam ar y golwg | **X** | | | Fel 4.1, bydd y ddogfen ganllaw ddiwygiedig yn helpu i sicrhau bod cymorth ar gael i ddysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd ym mhob lleoliad addysg a gynhelir. |
| Nam ar y clyw | **X** | | | Fel uchod |
| Anabledd corfforol | **X** | | | Fel uchod |
| Anabledd dysgu | **X** | | | Fel uchod |
| Problem iechyd meddwl | **X** | | | Fel uchod |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Namau eraill | X | | | Fel uchod |

**4.3 Oherwydd eu rhyw (dyn neu ddynes)?**

| Rhyw | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth)/ Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Gwryw | | | X | |
| Benyw | | | X | |

**4.4 Oherwydd eu bod yn drawsrywiol?**

| Trawsrywiol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| | | | X | |

**4.5 Oherwydd eu priodas neu bartneriaeth sifil?**

| Priodas a Phartneriaeth Sifil | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth)/ Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Priodas | | | X | |
| Partneriaeth Sifil | | | X | |

**4.6 Oherwydd eu beichiogrwydd neu famolaeth?**

| Beichiogrwydd | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / | Rhesymau dros |
|---|---|---|---|---|

| a Mamolaeth | | | Dibwys | eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Beichiogrwydd | | | X | |
| Mamolaeth (y cyfnod ar ôl geni) | | | X | |

**4.7 Oherwydd eu hil?**

| Hil | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Pobl o leiafrif ethnig (e.e. Asiaidd, Du) | | | X | |
| Tarddiad Cenedlaethol (e.e. Cymreig, Seisnig) | | | X | |
| Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid | | | X | |
| Sipsiwn a Theithwyr | | | X | |
| Mudwyr | | | X | |
| Eraill | | | X | |

**4.8 Oherwydd eu crefydd a'u cred neu ddiffyg cred?**

| Crefydd a chred neu ddiffyg cred | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gwahanol grwpiau crefyddol yn cynnwys Mwslimiaid, Iddewon, Cristnogion, Sikhiaid, Bwdhyddion, Hindŵiaid, Eraill (nodwch) | | | **X** | |
| Cred e.e. Dyneiddwyr | | | **X** | |
| Diffyg cred | | | **X** | |

**4.9 Oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol?**

| Cyfeiriadedd Rhywiol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Dynion hoyw | | | **X** | |
| Lesbiaid | | | **X** | |
| Deurywiol | | | **X** | |

**4.10 A ydych chi'n credu y bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hawliau dynol pobl?** ***Gweler pwynt 1.4 o Atodiad A yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – Canllawiau ar ddod o hyd i wybodaeth bellach am Hawliau Dynol.***

| Hawliau Dynol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Hawliau Dynol yn cynnwys Deddf Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig | | | X | |

***Os ydych chi wedi nodi unrhyw effeithiau (ac eithrio rhai dibwys), cadarnhaol neu negyddol, ar unrhyw grŵp â nodweddion gwarchodedig, llenwch Ran 2.***

***Os na cheir unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol, neu os ceir rhai dibwys yn unig, ewch yn syth i Ran 2 a llofnodwch yr Asesiad.***

## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – Rhan 2

**1. Gan adeiladu ar y dystiolaeth a gasgloch ac a ystyriwyd gennych yn Rhan 1, ystyriwch y canlynol:**

**1.1 Sut y gallai, neu sut y mae'r polisi'n helpu i wella / hyrwyddo cyfle cyfartal?**

Er enghraifft, mesurau cadarnhaol a luniwyd i fynd i'r afael ag anfantais a chyrraedd gwahanol gymunedau neu grwpiau gwarchodedig?

Er nad yw'n ofyniad statudol, ar hyn o bryd disgwylir i'r holl awdurdodau lleol, ysgolion a gynhelir a'u cyrff llywodraethu lunio polisïau ar gyfer rhoi addysg i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion gofal iechyd, a hynny yng ngoleuni dyletswyddau statudol ehangach (ee sy'n gysylltiedig â diogelu plant a hyrwyddo eu lles) a'u hasesiad eu hunain o anghenion lleol.

Mae'r canllawiau diwygiedig naill ai'n nodi neu'n pennu y dylai ysgolion ac awdurdodau lleol ddarparu cymorth, cyngor a chanllawiau; gan gynnwys bodloni anghenion hyfforddi priodol staff y darparwr addysg, er mwyn sicrhau bod y cymorth a nodir yng nghynllun gofal iechyd unigol y dysgwyr yn cael ei ddarparu'n effeithiol. Maent hefyd yn dweud bod yn rhaid i awdurdodau lleol wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithio rhwng gwahanol gyrff neu bersonau, gan gynnwys y bwrdd iechyd lleol ac Ymddiriedolaeth y GIG sy'n darparu gwasanaethau yn yr ardal, gyda'r nod o wella lles plant a phobl ifanc, a hynny mewn perthynas â'u hiechyd corfforol a meddyliol, eu haddysg, eu hyfforddiant a'u hamdden, ymhlith pethau eraill.

Mae'r canllawiau hefyd yn nodi'n glir bod dyletswyddau ar gyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb i baratoi a gweithredu strategaethau a chynlluniau sy'n ymwneud â mynediad, gan gynnwys strategaethau a chynlluniau ar gyfer gwella amgylchedd ffisegol ysgolion mewn modd sy'n ehangu gallu disgyblion anabl i fanteisio ar yr addysg, y buddion, y cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir neu a gynigir gan yr ysgol/ysgolion.

| **1.2 Sut y gallai / sut y mae'r polisi / penderfyniad yn helpu i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu neu erledigaeth?** |
| --- |
| Mae'r ddogfen ganllaw ddrafft yn egluro'r hyn a ddisgwylir gan ysgolion ac awdurdodau lleol o ran deddfwriaeth cydraddoldeb, ac egwyddorion cynwysoldeb.<br><br>Mae'r ddogfen hefyd yn cynnwys adran ar arferion annerbyniol, sy'n dweud, er enghraifft, nad yw'n dderbyniol rhwystro dysgwr rhag mynychu addysg oherwydd ei anghenion gofal iechyd (ac eithrio pan fyddai hynny'n debygol o fod yn niweidiol i'r dysgwr neu i eraill). Mae hefyd yn nodi nad yw'n dderbyniol i ysgolion gosbi dysgwr oherwydd ei gofnod presenoldeb os yw ei absenoldeb yn ymwneud â'i anghenion gofal iechyd. Ni ddylid defnyddio absenoldebau awdurdodedig megis apwyntiadau gofal iechyd, amser i ffwrdd i adfer, ac ati, i gosbi dysgwr drwy ei atal rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau neu fynd ar dripiau, lle mae elfen o wobrwyo dysgwyr am eu presenoldeb. |
| **1.3 Sut y gallai / sut y mae'r polisi'n effeithio ar wella / hyrwyddo cysylltiadau da a chydlyniant cymunedol ehangach?** |
| Mae'r canllawiau diwygiedig yn nodi'r arferion gorau ar gyfer cydweithio gyda rhieni dysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd, gan bwysleisio'r manteision sy'n deillio o gydweithredu rhwng y cartref a'r ysgol. |

## 2. Cryfhau'r polisi

| **2.1 Os yw'r polisi'n debygol o gael effaith negyddol (niweidiol) ar unrhyw un o'r grwpiau gwarchodedig neu ar gysylltiadau da, beth yw'r rhesymau am hyn?**<br>**Pa newidiadau / camau ymarferol allai helpu i leihau neu gael gwared ar unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd yn Rhan 1?** |
| --- |
| Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol. Mae'r ddogfen ganllaw ddiwygiedig yn egluro rolau a chyfrifoldebau sy'n bodoli eisoes. |

| 2.2 Os na roddir unrhyw gamau ar waith i ddileu neu liniaru effaith negyddol / niweidiol, rhowch resymau pam.<br>(Cofiwch, os ydych chi wedi canfod gwahaniaethu anghyfreithlon (uniongyrchol neu bosibl) o ganlyniad i'r polisi, rhaid newid neu adolygu'r polisi.) |
| --- |
| Ddim yn berthnasol |

**3. Monitro, gwerthuso ac adolygu**

| **Sut yr ewch chi ati i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi?**<br>Rhestrwch fanylion unrhyw waith dilynol sy'n mynd i gael ei gyflawni mewn perthynas â'r polisi (e.e. ymgyngoriadau, monitro penodol ac ati). |
| --- |
| Caiff yr ymgynghoriad deg wythnos ei hyrwyddo drwy Twitter ac yn Dysg. Ymgysylltir â'r rhanddeiliaid allweddol canlynol yn uniongyrchol i geisio eu hymateb i'r ymgynghoriad:<br><br>• Elusennau *Diabetes UK , Asthma UK, Anaphylaxis Campaign, Allergy UK,* Epilepsi Cymru; ac elusennau iechyd eraill.<br>• Gweithredu dros Blant<br>• Barnardo's Cymru<br>• Plant yng Nghymru<br>• Elusen *Action for Sick Children*<br>• Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)<br>• Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol<br>• Comisiynydd Plant Cymru<br>• Estyn<br>• Undebau Addysg (yr NASUWT, yr NAHT)<br><br>Caiff yr asesiad o effaith hwn ei gyhoeddi ochr yn ochr â fersiwn ddrafft o ddogfen ganllaw *Anghenion Gofal Iechyd*. Bydd cyhoeddi'r ddogfen hon yn gyfle i randdeiliaid i roi adborth a sylwadau. Caiff unrhyw adborth ynghylch y canllawiau drafft ei ystyried a'i ddefnyddio wrth ddatblygu polisi.<br><br>Byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy Grŵp Cynhwysiant CCAC, y Panel Ymarferwyr Ysgol, y Panel Partneriaeth Undebau, ac Estyn. |
| Bydd canlyniadau pob asesiad o effaith lle mae'r effaith yn sylweddol yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. |

## 4. Datganiad

**Nid yw'r polisi'n effeithio'n sylweddol ar faterion cydraddoldeb**

| **Y swyddog sy'n cyflawni'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** |
|---|
| Enw: Dan Martin |
| |
| Adran: Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus |
| |
| Dyddiad: 23/11/2015 |
| |
| Llofnod: |
| |
| **Pennaeth Adran (Llofnod)** |
| Enw: Emma Williams |
| |
| Teitl swydd ac adran: Dirprwy Gyfarwyddwr |
| |
| Dyddiad: 17/02/16 |
| |
| Llofnod: |
| |
| Dyddiad Adolygu: Mehefin 2017 |